



COD YMDDYGIAD CBDC

RÔL, CYFRIFOLDEBAU a Chod ymddygiad swyddogion diogelu

Mae (**enw'r clwb**) yn cefnogi ymgyrch 'Tu ôl y Llinell, Tu ôl y Tîm' Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) yn llawn ac yn cydnabod bod gan hyfforddwyr a gwirfoddolwyr pêl-droed gyfle gwych i fod yn ddylanwad cadarnhaol ar bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y gêm. **Mae bob un ohonom ni'n gyfrifol am sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â phêl-droed yn mwynhau profiad hwyliog, diogel a chadarnhaol.**

A fyddech cystal â dangos eich cefnogaeth dros fesurau Diogelu CBDC **drwy lofnodi'r datganiad isod.** Drwy lofnodi'r swydd disgrifiad a'r Cod Ymddygiad hwn, rydych chi'n dangos eich bod yn deall, ac yn barod i gydymffurfio â'r, amodau canlynol:

Mae disgwyl i Swyddogion Diogelu Clybiau:

- Cael gwiriad DBS bob 3 blynedd, neu fel sy'n ofynnol, a chyflwyno eu tystysgrif DBS i CBDC.
- Ymgymryd â Chwrs Lles Plant CBDC a'i ail-ddilysu yn ôl y gofyn.
- Gweinyddu rhaglen DBS y Gymdeithas ar lefel clwb drwy sicrhau bod hyfforddwyr a phob aelod perthnasol o staff yn cael gwiriad DBS ac yn cyflwyno'u tystysgrifau DBS i CBDC. Sicrhau bod ganddynt rifau CBDC cyfredol a dilys.
- Sicrhau bod lles plant yn cael blaenoriaeth ar bob adeg.
- Trin pob chwaraewr yn gyfartal.
- Annog pob plentyn i beidio â gwahaniaethu ar sail crefydd, hil, rhyw, dosbarth cymdeithasol neu ddiffyg gallu.
- Sicrhau bod y Porth Pêl-droed Ieuentid yn cael ei ddiweddarau neu benodi Pencampwr Porth i wneud hynny.
- Sicrhau bod rhieni a phlant yn gwybod pwy yw Swyddog Diogelu'r Clwb, a bod manylion cyswllt ar gael.
- Peidio â chaniatáu unrhyw chwarae garw neu beryglus, bwllo, neu'r defnydd o iaith anwedus neu ymddygiad amhriodol.
- Bod yn gadarnhaol, yn hawdd sgwrsio â chi a chynig canmoliaeth i hyrwyddo amcanion y clwb ar bob adeg.
- Dangos safonau uchel, ymddwyn yn gyfrifol a pheidio byth â defnyddio neu ddiodef geiriau, ymddygiad neu ystumiau ffaidd, sarhaus, amharchus neu amhriodol.
- Sicrhau bod y clwb yn cydymffurfio â Rhaglen Achredu Clybiau CBDC, ac yn cyrraedd y safon isaf sy'n ofynnol er mwyn cael cymryd rhan yn y gynghrair Ieuentid, mewn partneriaeth â Phwyllgor y Clwb.
- Peidio â gadael i gyhuddiadau o gam-drin o unrhyw fath neu arfer gwael fynd heb gael eu herio neu eu cofnodi. Mae'n rhaid cofnodi digwyddiadau a damweiniau yn unol â gweithdrefnau'r clwb ac mae'n rhaid rhoi gwybod i rieni
- Ymchwilio i fân faterion yn ymwneud â diogelu ac arfer gwael yn sydyn, gan gyfathrebu penderfyniadau ar bapur ynghyd â'r hawl i apelio i'r Gynghrair Ieuentid.
- Cyfeirio unrhyw faterion na ellir delio â nhw ar lefel clwb i Swyddog Diogelu'r Gynghrair.
- Peidio byth â defnyddio cosbau sy'n codi cywilydd ar chwaraewyr neu yn eu niweidio.
- Parchu a gwrandao ar farn chwaraewyr.
- Gweithredu arfer gorau ar lefel y clwb gan ddefnyddio Codau Ymddygiad, polisïau ac ati.
- Peidio â phostio unrhyw beth amhriodol neu negyddol ar y cyfryngau cymdeithasu a allai ddwyn gwarth ar y gêm.
- Atal rhag ysmegu neu yfed alcohol yn ystod gweithgareddau'r clwb neu sesiynau hyfforddi.
- Bod yn ymwybodol o Bolisi, Gweithdrefnau ac Arferion Diogelu CBDC ac ymgymryd â'r cyfrifoldebau a amlinellir ynddynt.
- Peidio â cham-drin aelodau yn gorfforol, emosiynol neu rywiol.
- Peidio â chael perthynas rywiol â pherson ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt.
- Sicrhau cyfrinachedd ynghylch gwybodaeth sensitif.
- Peidio â threulio cyfnodau gormodol ar eu pen eu hunain â'r plant, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.
- Peidio â rhoi cymorth cyntaf sy'n golygu dadwisgo plentyn, oni bai bod pobl eraill yn bresennol.

enw:

I lofnodwyd:

dyddiad:

